

Adroddiad byr ar radio cymunedol yng Nghymru

Tachwedd 2019

Argymhellion

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru ariannu corff radio cymunedol i Gymru. Byddai'r corff yn cynnig cymorth ymarferol i orsafoedd, yn cyflawni rôl gynrychioliadol ac yn cydgysylltu cydweithrediad a rhannu gwybodaeth ar draws gorsafoedd. Gallai cymorth ymarferol gynnwys cyflawni tasgau cyffredin ar gyfer gorsafoedd fel adnoddau dynol, marchnata neu ysgrifennu grantiau. Dylai'r corff hefyd helpu i greu cysylltiadau rhwng gorsafoedd cymunedol a chyrrff eraill sydd â diddordeb, fel radio masnachol a'r BBC.

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru ddarlledu mwy o hysbysebion y llywodraeth, yn enwedig ymgyrchoedd gwybodaeth gyhoeddus, ar orsafoedd Radio Cymunedol a rhoi canllawiau i gyrrff eraill y sector cyhoeddus yng Nghymru i dynnu eu sylw at y posibilïadau o ddefnyddio mwy ar y sector.

Argymhelliad 3. Dylai'r BBC ymwneud yn weithredol â radio cymunedol er mwyn rhoi mynediad i'r allbwn a hyrwyddo'r defnydd o'u Gwasanaeth Gohebu Democratiaeth Leol.

Argymhelliad 4. Dylai'r BBC a radio masnachol weithio gyda radio cymunedol i ddatblygu llwybr i wirfoddolwyr radio cymunedol gael profiad yn eu gorsafoedd radio fel ffordd o ddatblygu talent ledled Cymru.



Argymhelliad 5. Dylai'r BBC gynnig cyfraddau ffafriol i orsafoedd radio cymunedol a rhoi'r cynnig cyntaf iddynt wrth werthu offer radio nad ydynt yn ei ddefnyddio mwyach.

Argymhelliad 6. Dylai'r Radio Joint Audience Research (RAJAR) ddatblygu arolwg cynulleidfa llai cymhleth a rhatach y gallai radio cymunedol ei ddefnyddio. Yna dylai gorsafoedd sy'n dewis defnyddio'r gwasanaeth newydd hwn allu cyrchu'r hysbysebwr sy'n gosod hysbysebion gan ddefnyddio sgorau RAJAR.

Argymhelliad 7. Dylai Ofcom symleiddio'r broses grantiau ar gyfer gorsafoedd radio cymunedol.

Argymhelliad 8. Dylai Ofcom weithio gyda radio cymunedol er mwyn datblygu mynediad at Ddarlledu Sain Digidol (DAB) fforddiadwy i orsafoedd cymunedol.

1. Cyflwyniad

1. Cyflwynwyd radio cymunedol yn sgil deddfwriaeth, er mwyn cyflwyno haen newydd o ddarlledu radio yn y DU, gan ganolbwyntio'n benodol ar ymgysylltu â'r gymuned. Mae'r gorsafoedd yn ddielw ac yn canolbwyntio ar gyflawni budd cymdeithasol, gan weithio i feithrin cysylltiadau â'r gymuned a chynnwys y gymuned yn y gwaith o redeg y gwasanaeth.
2. Ar hyn o bryd mae un ar ddeg o orsafoedd radio cymunedol yng Nghymru. Mae deg gorsaf, sef Calon FM, Tudno FM, BRfm, Radio Tircoed, Radio Glan Clwyd, Môn FM, Radio Cardiff, Radio Tircoed, Bro Radio a GTFM eisoes ar yr awyr gyda Radio Aber yn bwriadu dechrau darlledu yn fuan.
3. Fel rhan o'i adroddiad "Ar yr un donfedd: Ymchwiliad i Radio yng Nghymru" a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2018, dywedodd y pwyllgor y byddai'n "trefnu symposiwm ar gyfer gorsafoedd Radio Cymunedol yng Nghymru i roi cyfle iddynt ddod at ei gilydd ac ystyried ystod o faterion cyffredin". Cynhaliwyd y symposiwm hwn ddydd Iau 20 Mehefin 2019 yn yr Atriwm, Caerdydd.
4. Roedd pobl o bob un o'r 10 gorsaf gymunedol, y byd academiaidd, radio masnachol, y BBC ac aelodau'r Pwyllgor yn bresennol yn y symposiwm, ac mae rhestr o'r mynychwyr ar gael yn yr atodiad. Trafododd y mynychwyr amrywiaeth o faterion, gan gynnwys lle gallai gorsafoedd gydweithio (o fewn y sector radio cymunedol a chyda radio masnachol/y BBC), materion a wynebier gan orsafoedd radio cymunedol ac atebion i broblemau cyffredin. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu canfyddiadau ac argymhellion y Pwyllgor o'r digwyddiad hwn.

5. Dechreuodd y symposiwm gyda chyflwyniadau llawn gwybodaeth gan Colin Paterson o'r BBC, Hywel Williams o Advisors in Media (AIM) a Martin Mumford o Nation Radio. Hoffai'r Pwyllgor ddiolch iddynt am eu cyfraniad i'r diwrnod a hoffwn hefyd ddiolch i Steve Johnson o Brifysgol De Cymru am ei gymorth wrth baratoi ar gyfer y digwyddiad a'i hwyluso.

2. Adborth o'r symposiwm

2.1. Gwerth radio cymunedol

6. Mae gorsaf radio gymunedol yn darparu ystod eang o fanteision i'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu. Mae'n helpu i gysylltu cymuned. Mae'n llwyfan gwerthfawr i hyrwyddo digwyddiadau, cwmnïau ac elusennau lleol. Mae'n cynnig newyddion hyperleol sy'n dod yn bwysicach wrth i bapurau lleol gau. Mae hefyd yn creu llwybr i bobl gael hyfforddiant a phrofiad gwerthfawr ym mhob agwedd ar redeg gorsaf radio: p'un a oes ganddynt ddiddordeb mewn gyrfa neu'n awyddus i ddysgu sgiliau newydd a chwrdd â phobl newydd.

2.2. Problemau cyffredin a wynebir gan orsafoedd radio cymunedol

7. Roedd y cyfranogwyr yn gwerthfawrogi'n fawr cael lle i rwydweithio a datrys problemau mewn ffordd nad oedd wedi digwydd yn y sector radio cymunedol yng Nghymru o'r blaen. Yn gynnar yn y sesiwn llwyddodd cynrychiolwyr o un orsaf i helpu gorsaf arall gyda chynghor ar sut i ddatrys problem dechnegol hirdymor; amlygodd hyn yn gyflym werth rhwydweithio i'r sector.

8. Problem fawr a wynebir gan radio cymunedol yw sicrhau bod yr holl swyddi ystafell gefn yn cael eu llenwi. Roedd llawer o ddiddordeb mewn rolau ar yr awyr, ond roedd yn anodd llenwi rolau nad oeddent yn gweithio yn y stiwdio. Mae'r rhain yn cynnwys casglu newyddion, sy'n bwysig iawn i sicrhau bod yr orsaf yn ychwanegu gwerth at y gymuned, ac adnoddau dynol, cyllid a swyddi cysylltiedig eraill. Mae'r rolau hyn yr un mor hanfodol i gadw gorsafoedd ar yr awyr â'r rhai yn y stiwdio.

9. Mae tri phrif lwybr ar gyfer ariannu radio cymunedol: hysbysebion, grantiau a rhoddion. Bydd gan elusennau mwy staff amser llawn sydd â hyfforddiant a phrofiad proffesiynol o wneud cais am grantiau a/neu geisio rhoddion. Yn yr un modd mae gwerthu hysbysebion yn farchnad hynod gystadleuol.

10. Nid yw hyn o reidrwydd yn wir am orsafoedd radio cymunedol. Er bod rhai gorsafoedd yn ffodus ac mae ganddynt wirfoddolwyr sydd â'r sgiliau hyn i lefel broffesiynol, nid yw hyn yn wir i'r mwyafrif, ac nid oes gan y gwirfoddolwyr hynny sydd â'r sgiliau lawer o amser i'w dreulio ar ddod â refeniw i mewn i'r gorsafoedd. Mae hyn yn golygu nad yw'r rhan fwyaf o orsafoedd yn gallu gwneud y gorau o'u refeniw ac o ganlyniad i hyn mae gorsafoedd yn aml mewn sefyllfa ariannol fregus iawn.

11. Nid oes ychwaith gorff canolog sy'n cynrychioli radio cymunedol wrth ymwneud â'r llywodraeth, y rheoleiddiwr neu bartïon eraill sydd â diddordeb. Fel gyda'r materion eraill a godwyd uchod, mae'r rhain yn sgiliau penodol a gall rhai pobl sy'n gwirfoddoli ar gyfer rhai gorsafoedd feddu arnynt, ond ar y cyfan mae diffyg sgiliau ac oriau personél i fynd ar drywydd yr amcanion hyn yn llawn ar draws y diwydiant.

12. Teimlwyd y gellid ffurfio corff a fyddai'n cyflawni'r holl rolau hyn. Gallai greu llwyfan ar gyfer cydweithredu a threfnu rhwng gorsafoedd cymunedol, rhwng gorsafoedd a phartïon eraill sydd â diddordeb a chyflawni llawer o rolau ystafell gefn a thasgau ailadroddus y mae gorsafoedd yn ei chael yn anodd eu cyflawni.

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru ariannu corff radio cymunedol i Gymru. Byddai'r corff yn cynnig cymorth ymarferol i orsafoedd, yn cyflawni rôl gynrychioliadol ac yn cydgysylltu cydweithrediad a rhannu gwybodaeth ar draws gorsafoedd. Gallai cymorth ymarferol gynnwys cyflawni tasgau cyffredin ar gyfer gorsafoedd fel adnoddau dynol, marchnata neu ysgrifennu grantiau. Dylai'r corff hefyd helpu i greu cysylltiadau rhwng gorsafoedd cymunedol a chyrrff eraill sydd â diddordeb, fel radio masnachol a'r BBC.

13. Hoffai'r Pwyllgor ailadrodd ei argymhelliad o'r adroddiad 'Ar yr un donfedd' am gefnogaeth y sector cyhoeddus i'r sector radio cymunedol. Yn ystod yr ymchwiliad ar radio yng Nghymru, daeth y Pwyllgor i'r casgliad y 'dylai Llywodraeth Cymru ymdrechu i ddarlledu mwy o hysbysebion llywodraeth, yn enwedig ymgyrchoedd gwybodaeth gyhoeddus, ar orsafoedd Radio Cymunedol a rhoi canllawiau i gyrff eraill y sector cyhoeddus yng Nghymru i dynnu eu sylw at y posibilïadau o ddefnyddio mwy ar y sector hwn.'

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru roi mwy o hysbysebu gan y llywodraeth, yn enwedig ymgyrchoedd gwybodaeth gyhoeddus, gyda gorsafoedd Radio Cymunedol a darparu arweiniad i gyrff eraill y sector cyhoeddus yng Nghymru i dynnu eu sylw at y posibilïadau o ddefnyddio'r sector yn fwy

2. 3. Cydweithredu â'r diwydiant radio a'r cyfryngau ehangach

14. Mae radio cymunedol yn chwarae rôl bwysig wrth sylwebu ar faterion lleol sy'n dod yn fwyfwy pwysig wrth i bapurau newydd lleol ddirywio. Fel rhan o'i ymrwymiad siarter sefydlodd y BBC, gan weithio gyda phartneriaid mewn sefydliadau cyfryngau eraill, y Gwasanaeth Gohebu Democratiaeth Leol (LDRS), asiantaeth newyddion gwasanaeth cyhoeddus sy'n cwmpasu pob awdurdod lleol haen uchaf a rhai cyrff cyhoeddus eraill ledled y DU.

15. Mae'r Gwasanaeth yn creu allbwn sy'n cwmpasu pob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru, ond nid oedd y gorsafoedd radio cymunedol a oedd yn bresennol yn ymwybodol o sut i gael gafael ar ei allbwn. Byddai'r allbwn a grëir gan y Gwasanaeth yn galluogi radio cymunedol i ymdrin yn effeithiol â thrafodiadau eu hawdurdod lleol ac i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'w cymunedau.

Argymhelliad 3. Dylai'r BBC ymwneud yn weithredol â radio cymunedol er mwyn rhoi mynediad i'r allbwn a hyrwyddo'r defnydd o'u Gwasanaeth Gohebu Democratiaeth Leol.

16. Mae radio cymunedol yn cynnig porth gwyb i bobl gael profiad gwerthfawr yn y diwydiant radio. Mae gorsafoedd yn hyfforddi staff ar yr awyr, staff technegol a staff oddi ar yr awyr ac yn rhoi profiad go iawn iddynt mewn gorsaf ddarlledu. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o bryder gan y rhai a oedd yn bresennol bod y dulliau y gallai gorsafoedd radio cymunedol eu defnyddio yn rhai nad ydynt o safon diwydiant gan fod llawer o'u gweithdrefnau wedi'u creu gan wirfoddolwyr a'u trosglwyddo drwy hyfforddiant mewnol yr orsaf.

17. Teimlwyd y byddai'r sector yn elwa'n fawr o rywfaint o gydweithredu ar hyfforddiant gyda'r darparwyr radio mwy. Roedd rhai gorsafoedd wedi derbyn cymorth gan y BBC gyda hyfforddiant yn y gorffennol, ac roedd hyn yn cael ei groesawu'n fawr. Fodd bynnag, teimlai'r grŵp fod diffyg llwybr i wirfoddolwyr gorsafoedd ennill profiad gyda'r BBC a/neu radio masnachol. Byddai hyn hefyd yn helpu gorsafoedd i recriwtio gwirfoddolwyr gan y byddai llwybr hyfforddi clir gyda chyfleoedd profiad gwaith deniadol.

Argymhelliad 4. Dylai'r BBC a radio masnachol weithio gyda radio cymunedol i ddatblygu llwybr i wirfoddolwyr radio cymunedol gael profiad yn ei orsaf radio fel ffordd o ddatblygu talent newydd ledled Cymru.

18. Gan fod y BBC yn ddarlledwr o'r radd flaenaf, mae'n diweddarau ei offer yn rheolaidd. Prynir yr offer diweddaraf hwn gydag arian cyhoeddus. Pe bai'r BBC yn

rhoi statws ffafriol i orsafoedd cymunedol wrth werthu'r offer y maent yn ei ddisodli, byddai hyn yn galluogi'r BBC i drosglwyddo'r buddsoddiad cyhoeddus hwn i'r gymuned. Byddai hefyd yn helpu i gefnogi datblygiad talent radio drwy ganiatáu i wirfoddolwyr ddod yn gyfarwydd â chyfarpar mwy newydd.

Argymhelliad 5. Dylai'r BBC gynnig cyfraddau ffafriol i orsafoedd radio cymunedol a rhoi'r cynnig cyntaf iddynt wrth werthu offer radio nad ydynt yn ei ddefnyddio mwyach.

2. 4. Ffigurau gwrando

19. Cafwyd trafodaeth eang ynglŷn â phoblogrwydd gyda safbwyntiau amrywiol yn yr ystafell. Cytunodd y gorsafoedd, er mai'r nod yw cyrraedd eu cymuned gyfan, na allech farnu gwerth gorsaf ar boblogrwydd yn unig.

20. Prif amcan radio cymunedol yw cysylltu eu gwrandawyr â'r gymuned ehangach. Fel y cyfryw, byddai nifer fach o wrandawyr hyddysg a chysylltiedig, yn enwedig os ydynt wedi'u hynysu, yn agored i niwed neu heb lawer o gysylltiadau eraill â chymdeithas, mor llwyddiannus, os nad yn fwy, â ffigurau gwrandawyr mawr. Wedi dweud hynny, roedd llawer o orsafoedd yn teimlo y byddai'n ddefnyddiol gwybod eu ffigurau cynulleidfa.

21. Radio Joint Audience Research (RAJAR) yw'r corff swyddogol sy'n gyfrifol am fesur cynulleidfaedd radio yn y DU. Mae'n gweithio gyda gorsafoedd prif ffrwd i gasglu rhifau gwrandawyr drwy bleidleisio cyhoeddus cynhwysfawr.

22. Mae'r lefel honno o bleidleisio yn ddwys o ran adnoddau, ac felly mae costau uchel yn gysylltiedig â hyn. Mae hefyd yn fwy manwl na'r hyn y byddai'r rhan fwyaf o orsafoedd cymunedol ei angen. Teimlwyd y byddai arolwg llai cymhleth a oedd yn rhatach i gael mynediad ato ac wedi'i dargedu at orsafoedd cymunedol yn cael ei groesawu'n fawr.

23. Byddai manteision yr arolwg hwn yn ddeublyg. Byddai'n helpu gorsafoedd i ddeall eu gwrandawyr ac felly'n mireinio eu hallbwn ond byddai hefyd yn helpu i ddenu refeniw hysbysebu gan fod llawer o hysbysebwr yn gosod hysbysebion yn seiliedig ar ffigurau RAJAR.

Argymhelliad 6. Dylai'r Radio Joint Audience Research (RAJAR) ddatblygu arolwg cynulleidfa llai cymhleth a rhatach y gallai radio cymunedol ei ddefnyddio. Yna dylai gorsafoedd sy'n dewis defnyddio'r gwasanaeth newydd hwn allu cyrchu'r hysbysebwr sy'n gosod hysbysebion gan ddefnyddio sgorau RAJAR.

2. 5. Y berthynas â'r rheoleiddiwr

24. Teimlwyd bod llawer o le i Ofcom gryfhau ei waith gyda'r sector radio cymunedol. Ar hyn o bryd roedd gorsafoedd cymunedol yn teimlo bod arweiniad Ofcom yn canolbwyntio ar y sector masnachol ac efallai nad yw o bosibl yn deall y sector cymunedol a'r heriau y mae'n eu hwynebu yn llawn.

25. Un mater a godwyd oedd bod y broses ar gyfer gwneud cais i Ofcom am grantiau yn gymhleth. Nid oes gan y rhan fwyaf o orsafoedd cymunedol wirfoddolwyr sydd â phrofiad o wneud cais am grantiau, ac felly maent yn teimlo bod proses grantiau gymhleth yn rhwystr annheg i gael gafael ar arian y mae mawr ei angen.

Argymhelliad 7. Dylai Ofcom symleiddio'r broses gwneud cais am grantiau ar gyfer gorsafoedd radio cymunedol.

26. Teimlwyd bod Darlledu Sain Digidol (DAB) yn cynnig cyfle cyffrous i orsafoedd cymunedol. Wrth i dechnoleg ddatblygu, mae'n gwneud yr opsiwn i ddarlledu ar DAB yn rhatach ac yn fwy hygyrch. Mae hyn yn creu cyfle gwych i Ofcom a'r sector cymunedol gydweithio, bod yn flaengar a datblygu strategaeth a fydd yn caniatáu i orsafoedd DAB cymunedol ffynnu.

Argymhelliad 8. Dylai Ofcom weithio gyda radio cymunedol er mwyn datblygu mynediad at Ddarlledu Sain Digidol (DAB) fforddiadwy i orsafoedd cymunedol.

Atodiad

Cynhaliwyd y symposiwm yn yr Atriwm ar 20 Mehefin 2019 ac roedd y bobl a ganlyn yn bresennol:

Enw	Gorsaf radio
Nathan Spackman	Bro Radio
Gareth Knight/Ryan Sutton	Bro Radio
Martin Mumford	Nation Radio
Euros Lewis	Radio Beca
Lee Davies	Ymddiriedolaeth Datblygu 3G
Marc Webber	Prifysgol Northampton/BBC
Lee Cole	Rhondda Radio
David Arthur	Rhondda Radio
Stephen Bower	BGFM
Daniel James	BGFM
Tony Wyn Jones	Môn FM
Gwyn Owen	Môn FM
Paul Atkins	Coleg Prifysgol Birmingham
Colin Paterson	BBC Radio Wales
Harold Martin	Darlledu Cymunedol Clwyd LTD
Clint Evans	Dapper FM
David Chamberlain	Dapper FM
Amir Maleki	Radio Cardiff
Sam Thomas	Radio Aber

Terry Mann	GTFM
Gavin Powell	GTFM
Colin Dixon	GTFM
Michael Lewis	Radio Tircoed
Paul Gemine	Radio Tircoed
Ian Lamsdale	Newport City Radio
Philip Davies	Newport City Radio
Chris Jones	Vitalize Radio
Dan Williams	Vitalize Radio
Chris Morgan	Vitalize Radio
Janet Morgan	Vitalize Radio
Christina Papagiannouli	Prifysgol De Cymru
Helen Davies	Prifysgol De Cymru
Rhys Evans	BBC Cymru
Hywel William	Cyfarwyddwr Grŵp AIM (DU)